

RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cynghorydd Alison Chapman ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Y Cynghorydd: Alison Chapman

Ardal Etholiadol: Treorci

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Aelod o'r Cyngor Llawn.

Aelod o'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (a Throsedd ac Anhrefn).

Llywodraethwr Cymunedol, Ysgol Gyfun Treorci.

Llywodraethwr AALI Ysgol Gynradd Treorci.

Aelod o Fforwm Canol Tref Treorci.

Pwyllgor Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd Treorci.

Cymorthfeydd Cyngorwyr.

Grŵp Gweithredu Llifogydd Dŵr Cymru (Ward Treorci).

Pwyllgor Cronfa Wynt Treorci.

Cyd-drefnydd Gŵyl Gelfyddydau Rhondda Treorci (RAFT).

Aelod o Ffrindiau Parc Treorci.

Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwy'n gweithio'n agos gyda'm Cydweithwyr yn y Ward.

Rwyf wedi cynnal gwaith achos ar ystod o bynciau ac rwy'n cynrychioli anghenion a safbwyntiau trigolion a sefydliadau cymunedol Ward Treorci. Mae'r gwaith achos yn cynnwys materion sy'n ymwneud â thyllau yn y ffyrdd, parcio, cŵn yn baeddu, llygredd sŵn a phroblemau gyda chymdogion, gordyfiant, treth y cyngor a phalmentydd wedi'u torri. Rwy'n mynychu Cymorthfeydd Cyngorwyr misol i wrando ar faterion sy'n bwysig i etholwyr. Rwy'n cysylltu ag Adran a Swyddogion y Cyngor ar ran y trigolion i sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli.

Gweithiais i gyda'r busnesau a'r masnachwyr yng nghanol tref Treorci er mwyn sicrhau bod eu diddordebau yn cael eu diwallu ac er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am yr hyn sy'n digwydd yn y Gymuned. Cymerais ran mewn trafodaethau gyda masnachwyr am y posibilrwydd o droi Treorci'n Ardal Gwella Busnes.

Rwyf wedi siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor ac wedi cyflwyno deisebau ar ran trigolion Ward Treorci. Rwyf wedi siarad a holi cwestiynau mewn cyfarfodydd Craffu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â RhCT yn gyffredinol.

Rwyf wedi rhoi geirdaon ar gyfer swyddi a geirdaon cymeriad.

Rwyf wedi cynnal achlysur Cronfa Wynt Treorci, lle derbyniodd sefydliadau cymunedol eu harian gan y Gronfa. Mynychais nifer o achlysuron cymunedol.

Rydyn ni'n cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd sy'n rhoi gwybodaeth i etholwyr am faterion a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw.

Fel yr addewais, rwyf wedi gwneud rhoddion sy'n cyfateb i doriad 5% gwirfoddol yn fy lwfans blynyddol trwy gydol y flwyddyn i fudiadau gwirfoddol ac elusennol lleol i gynorthwyo yn eu gwaith.

Rwyf wedi bod yn rhan o gynlluniau i wella Sgwâr Stag, ac roeddwn i wedi cefnogi adolygiad o drefniadau parcio i drigolion Treorci.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd grŵp Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd, ac mae gyda fi berthynas dda gyda'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol a'r Heddlu'n gyffredinol ac maen nhw'n ymateb yn brydlon i faterion sy'n gyfrifoldeb iddyn nhw.

Ymunais i â Ffrindiau Parc Treorci ac aethon ni ati i ymgyrchu dros well gyfleusterau meysydd chwarae ym maes chwarae Treorci. Hefyd, es i ati'n weithredol i drefnu achlysuron codi arian.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Roeddwn i'n rhan o grŵp Fforwm Canol y Dref a drefnodd Achlysur Nadolig Treorci. Rwyf hefyd wedi cyd-drefnu'r Wyl RAFT gyntaf yn Nhreorci. Rwyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cael Ardal Gwella Busnes ar gyfer canol y dref. Mae gobraith y bydd modd i ni gefnogi Siambr Fasnach Treorci i gael Ardal Gwella Busnes yng nghanol y dref.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Mynychais yr holl sesiynau hyfforddi a oedd ar gael i Gynghorwyr newydd a oedd yn fy helpu i fod yn Gynghorydd.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi mynychu nifer o achlysuron a digwyddiadau cymunedol lleol yn yr ardal.

Mynychais weithgareddau codi sbwriel.

Llofnod y Cynghorydd: Alison Chapman

Dyddiad: Mai 2018